

Dalen ffeithiau myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio CMC

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) yn ymwneud â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn prifysgolion neu golegau yn y Deyrnas Unedig

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio: gwybodaeth i fyfyrwyr

A oes gennych ychydig neu ddim cyswllt â'ch rhieni? A yw hynny'n annhebygol o newid? Os felly, efallai y gallwch wneud cais am gyllid myfyrwyr fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio.

Mae hyn yn golygu y gallwn eich asesu gan ddefnyddio eich incwm eich hun, nid incwm eich rhieni.

Gwyddom na all rhai myfyrwyr ofyn yn ddiogel i'w rhieni am yr wybodaeth hon. Rydym eisiau gwneud y broses hon mor hawdd a chefnogol â phosibl.

Ydw i'n gymwys i hawlio fy mod yn fyfyrwr sydd wedi ymddieithrio?

Dylech ymgeisio fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio os ydych chi dan 25, ac mae un o'r rhain yn berthnasol i chi:

- Os nad ydych chi wedi cael unrhyw gyswllt gyda'ch dau riant, naill ai dros y ffôn, yn bersonol neu'n ysgrifenedig, ers 12 mis neu fwy cyn i'ch cwrs gychwyn; neu
- Mae eich perthynas gyda'ch dau riant wedi chwalu yn y 12 mis diwethaf, ac nid ydych chi o'r farn y bydd hyn yn newid yn fuan.

Mae hyn yn cynnwys rhieni mabwysiadol yn ogystal a rhieni geni.

Mae rhai enghreifftiau o ymddieithrio yn fyfyrwyr sy'n byw gyda ffrindiau, myfyrwyr mewn llety â chymorth, a myfyrwyr sy'n byw gydag aelodau eraill o'r teulu fel modrybedd, ewythrod neu neiniau a theidiau.

Os ydych chi o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) ac yn cael ychydig iawn o gysylltiad â'ch rhieni, efallai y gallwch wneud cais fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth ei deulu, ond bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos.

Rydym yn ystyried pob cais yn unigol. Os ydych chi wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhieni yn ddiweddar – yn ystod y 12 mis diwethaf – byddwn yn dal i ystyried eich cais fesul achos.

Gwnewch gais am gyllid myfyrwyr cyn gynted ag y gallwch. Mae hyn yn rhoi digon o amser i ni wirio eich cais a'ch tystiolaeth cyn i'ch cwrs ddechrau.

Sut ydw i'n gwneud cais?

Os oes gennych dystiolaeth o'ch sefyllfa ymddieithrio eisoes, anfonwch gopi atom. Fel arfer, dyma'r ffordd gyflymaf o brofi eich amgylchiadau. Er enghraifft, gallai hyn fod yn llythyr gan athro, meddyg, gweithiwr cymorth neu awdurdod lleol. Dylai'r llythyr gadarnhau nad oes gennych gysylltiad â'ch rhieni.

Mae angen i'r llythyr gadarnhau eu perthynas â chi ac ers pryd maent wedi eich adnabod (fel arfer, mae angen i hyn fod am o leiaf 12 mis). Os yw eich prifysgol neu goleg yn darparu'r llythyr hwn ac heb eich adnabod cyhyd â hynny, gall CMC wneud eithriad. Mae angen i'r llythyr gadarnhau eich bod wedi ymddieithrio oddi wrth y ddau riant, pa mor hir rydych chi wedi bod yn y sefyllfa hon, lefel y cysylltiad sydd gennych â'ch rhieni, ac a yw'n debygol y bydd eich sefyllfa'n newid ai peidio.

Os nad oes gennych dystiolaeth, gallwch lenwi Ffurflen Cadarnhau ymddieithrio. Bydd angen i chi a pherson arall gwblhau hon gyda'ch gilydd. Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen yn eich cyfrif ar-lein. Gallwch hefyd ei lawrlwytho o'n teclyn dod o hyd i ffurflenni yn www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/ffurflenni. Weithiau, efallai y bydd angen i ni eich ffonio i drafod y mater gydag un o'n Aseswyr hyfforddedig.

Gall eich prifysgol neu goleg hefyd lenwi Ffurflen Ymddieithrio i gefnogi eich cais. Er enghraifft, eich darlithydd neu rywun sy'n cefnogi myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd yn eich prifysgol neu goleg. Nid oes angen i'r person hwn fod wedi eich adnabod am dri mis. Dim ond gwybod am eich sefyllfa o fod wedi ymddieithrio oddi wrth eich teulu sydd ei angen arnynt.

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gael fy asesu fel rhywun sydd wedi ymddieithrio?

Os ydych yn gymwys, fel arfer dim ond unwaith y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i ni. Fel arfer, byddwn yn eich trin fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio trwy gydol eich cwrs.

Ond os yw'r sefyllfa o ymddieithrio yn un diweddar – fel arfer o fewn y 12 mis diwethaf – neu os oes posibilrwydd y byddwch yn cymodi â'ch rhieni, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu rhagor o dystiolaeth mewn blynyddoedd diweddarach.

Cymorth sydd ar gael i chi

Does dim rhaid i chi ymdopi â hyn ar eich pen eich hun. Gall eich prifysgol neu'ch coleg eich helpu. Chwiliwch am gymorth gan Wasanaethau Myfyrwyr, Lles Myfyrwyr neu Undeb y Myfyrwyr. Mae UCAS hefyd yn cynnig cymorth annibynnol.

Chi sy'n penderfynu a ddylech roi gwybod i'ch prifysgol neu'ch coleg am eich sefyllfa o ymddieithrio. Os gwnewch hynny, gallant gynnig cymorth a help gyda'ch cais.

Dolenni pwysig

UCAS: www.ucas.com/applying/applying-university/individual-needs/estranged-students

Cyllid Myfyrwyr Cymru: <https://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/ffioedd-dysgu-a-chostau-byw/profi-incwm-eich-cartref/myfyrwyr-annibynnol-a-myfyrwyr-sydd-wedi-ymddieithrio/>